



CYFRANIAD TUAG AT DLWS YN EISTEDDFOD YR URDD SIR DDINBYCH 2020

A wyddoch fod modd cyfrannu £100 tuag at dlws i un o gystadlaethau Eisteddfod yr Urdd yn Sir Ddinbych?

Cyfrannwch £100 tuag at dlws ar ran unigolyn, teulu, cymdeithas, busnes neu er cof am rai arbennig. Mae'n ffordd hynod effeithiol i gefnogi'r Eisteddfod yn ogystal â'ch pwyllgor testun neu apêl leol.

Drwy gyfrannu £100 bydd cyfanswm y rhodd yn mynd yn erbyn targed pwyllgor testun / ardal y rhoddwr neu i'r gronfa gyffredinol. Bydd yr Eisteddfod yn gallu hawlio 25c yn ychwanegol am bob £1 a roddir os yw'r rhoddwr yn gymwys i gwblhau datganiad Rhodd Gymorth.

Cwblhewch y ffurflen isod yn dangos pa adran/nau sy'n mynd â'ch bryd, ac fe anfonwn restr o'r gwobrau sydd ar gael atoch. Neu os hoffech drafod y mater gyda ni, ffoniwch Nesta Jones ar 01678541014 neu e-bostiwch nesta@urdd.org

Ceir gwobrau ariannol yn yr adrannau canlynol:

- Alawon Gwerin
- Cerdd Dant
- Cerddoriaeth
- Dawns
- Drama
- Dysgwyr
- Gwyddoniaeth, Technoleg a'r cyfryngau Digidol
- Llefaru
- Llenyddiaeth
- Theatr

Bydd yr Urdd yn comisiynu artist i greu tlysau sydd yn unigryw i Eisteddfod Sir Ddinbych gyda manylion y rhoddwr yn cael ei ysgrythur ar y cefn. Caiff manylion y rhoddwr ei gynnwys yn y **Rhestr Testunau** (os derbynnir yr arian cyn cyhoeddi Rhestr Testunau 2020), **Rhaglen Swyddogol** a chyfeiriad o **Lwyfan y Pafiliwn** wrth gyfeirio at y gystadleuaeth.



Enghraifft o dlws gomisiynwyd ar gyfer cyfranwyr Eisteddfod yr Urdd Caerffili a'r Cylch yn 2015

CYFRANIAD TUAG AT DLWS YN EISTEDDFOD YR URDD SIR DDINBYCH 2020

Cwblhewch yr atodlen:

Enw

Cyfeiriad

E-bost

Rhif ffon

Cyfrannu tlws tuag at gystadleuaeth yn adran

Testun i'w ysgrythur ar y tlws

Cwblhewch a dychwelwch yr atodlen yma i sylw nesta@urdd.org os gwelwch yn dda.